**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# PANEL GWEITHREDOL
# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**6ed Chwefror 2012**

## PEIRIANT YSGOL AC ESGYNLAWR

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio argymhelliad gan yr Aelodau ar leoliad strategol tri Pheiriant Ysgol ac Esgynlawr y Gwasanaeth yn y dyfodol.

## Cyflwyniad

2 Peiriannau arbenigol yw'r rhain sydd, dan yr amgylchiadau priodol, yn darparu ffordd i mewn ac allan i ddiffoddwyr tân ar lefelau uchaf adeiladau, esgynlawr diogel ar gyfer gweithio'n uchel, llawer o ddŵr trwy fonitor ar gyfer diffodd tân a gallu cyfyngedig ar gyfer achub.

## Y Cefndir

3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18fed Hydref 2010, penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu safon cyrraedd 30 munud ar gyfer y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr ledled y gogledd.

4 Mae mabwysiadu amser cyrraedd 30 munud wedi lleihau angen y Gwasanaeth o 4 i 3 pheiriant, tra'n parhau i gyflawni dyletswydd yr Awdurdod i gwrdd ag anghenion gweithredol cyfredol y Gwasanaeth.

## Y Sefyllfa ar hyn o bryd

5 Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth bedwar Peiriant o’r fath, sef ym Mangor, Llandudno, y Rhyl a Wrecsam. Bydd y Peiriant sydd yng ngorsaf dân Wrecsam yn cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol ar 31ain Mawrth eleni, ac yn cael ei dynnu o ddyletswydd weithredol.

6 Mae’r lleoliadau presennol yn gofalu am ardal ddaearyddol eang ar draws y risgiau perthnasol yn Ngogledd Cymru.

7 Mae ystyried lleoliadau posib yn y dyfodol wedi dangos y byddai lleoli un o’r peiriannau draw o’r pedwar lleoliad presennol yn broblemus ac yn golygu gwariant ychwanegol, naill ai oherwydd newid strwythurol i wneud lle i beiriant a/neu fwy o gostau hyfforddi staff i ddarparu gweithredwyr newydd.

8 O ran mater lleoliad y 3 pheiriant, efallai y byddai’r Aelodau’n dymuno ystyried yr wybodaeth ganlynol:-

8.1 Tabl 1 yn Atodiad 1.

8.2 Mae peiriannau arbenigol wedi eu lleoli i ymorol am y risg perthnasol yn y Gwasanaeth drwyddo draw, ac nid mewn perthynas â risg penodol yr orsaf honno.

8.3 Mae’r peiriant sydd ym Mangos yn gofalu am sefydliadau addysgol Bangor, pellafoedd gorllewinol y gogledd ac Ynys Môn, sy’n cynnwys porthladd Caergybi a’r orsaf niwclear yn Wylfa. Gorsaf criw dydd 10 awr sydd ym Mangor.

8.4 Mae’r peiriant sydd yn Llandudno yn gofalu am sefydliadau twristaidd y dref. Mae gan sir Conwy y nifer uchaf o dderbyniadau rhagnodedig (*Pre-determined attendance (PDAs)*), gan gynnwys 437 o safleoedd yn Llandudno gyda pheiriant ar y PDA. Gorsaf criw dydd 10 awr sydd yn Llandudno.

8.5 Mae'r peiriant sydd yn y Rhyl yn gofalu am rai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn y gogledd, a nifer uchel o dai amlfeddiannaeth. Mae 343 o safleoedd yn y Rhyl gyda pheiriant ar y PDA. Gorsaf shifft 24 awr sydd yn y Rhyl.

8.6 Mae'r peiriant sydd yn Wrecsam sy'n cael ei ddefnyddio fwy na'r un yng Ngogledd Cymru, ac mae'r ardal 30 munud yn cynnwys y boblogaeth fwyaf yn rhanbarth ddwyreiniol y Gwasanaeth. Gorsaf shifft 24 awr sydd Wrecsam.

9 Ynghlwm yn Atodiad 2, ceir sleidiau a gyflwynwyd i'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol yn 2010 fel rhan o sesiynau briffio estynedig a ddarparwyd i'r Aelodau. Atodiad 3 yw'r adroddiad eglurhaol i'r Awdurdod am y cyflwyniadau, a llythyr gan Gyngor Tref Llandudno.

**Argymhelliad**

10 Gofynnir i'r Aelodau ystyried lleoliad priodol y 3 pheiriant yn y dyfodol, a gwneud argymhelliad i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth.

**Atodiad A**

**Tabl 1 – Gwybodaeth am weithrediad y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr**
**1[ef] Ebrill 2010 hyd at 30[ain] Medi 2011 (18 mis)**

| | **Bangor** | **Llandudno** | **Y Rhyl** | **Wrecsam** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr anfoniadau allan | 22 | 35 | 55 | 79 |
| Cyfanswm y digwyddiadau | 20 | 35 | 55 | 76 |
| Cyfanswm yr ymarferion | 2 | 0 | 0 | 3 |
| Anfon peiriant yn ôl PDA | 4 | 21 | 39 | 47 |
| Anfon peiriant ar gais | 18 | 14 | 16 | 32 |
| Peiriant heb fynd allan (criw) | 0 | 0 | 8 | 3 |
| Cyfanswm yn bresennol | 21 | 25 | 37 | 39 |
| Cyfanswm a ddefnyddiwyd | 19 | 10 | 12 | 27 |
| Defnyddio i achub pobl | 0 | 1 | 1 | 2 |
| Defnyddio i achub anifeiliaid | 2 | 5 | 2 | 1 |
| Defnyddio i ddiffodd tanau | 14 | 2 | 4 | 19 |
| Defnyddio i ddiogelu | 3 | 2 | 5 | 5 |